

Duw yw ein cartref

“... a hefyd rhoddodd dragwyddoldeb yng nghalonau pobl.” (adn. 11)

Beth am ddarllen Y Pregethwr 3:1–14 ac yna myfyrio

Mae'r testun heddiw'n awgrymu fod Duw wrth ein llunio wedi rhoi hiraeth ynom am dragwyddoldeb. Yr hyn sydd wedi fy rhyfeddu dros y blynyddoedd yw gweld sut mae'r gwirionedd syml ac eto grymus yma yn dod i'r amlwg ym mywydau pobl. Mae William Williams, Pantycelyn yn nodi'r hiraeth fel hyn:

Fy enaid sychedig i sydd,
wrth deithio dros fryniau mor faith
yn disgwyl yn dawel bob dydd
cyfarfod â diwedd fy nhaith,
fel darfod fy ngofid a'm gwae,
fy nhrallod, fy mlinder a'm poen,
a dechrau'm gorfoledd di-drai,
caniadau tragwyddol i'r Oen.

Sylwch yn y pennill ar y syched mae Pantycelyn yn ei fynegi, syched, wrth deithio drwy'r byd, am gael gweld diwedd ei daith. Dyma'i gartref nefol, a Duw yw ei gartref. Oddi wrth Dduw y daeth pob un ohonom i fod, a hyn sydd i gyfrif am yr hiraeth yna sydd yng nghalon pob un. Rwy'n credu bod yr hiraeth yno. Yr ydym wedi ein creu gan Dduw i Dduw, ac mae yna anesmwythid ynom na fydd yn diflannu nes y cawn wneud ein cartref yn Nuw. Mae pawb yn teimlo hyn, ond nid yw pawb yn deall hyn. Roeddwn yn siarad â gŵr yn ddiweddar tra oeddwn ym Maleisia. Dyn da a dyn duwiol, a dywedodd wrthyf, “Pam nad wyf byth yn teimlo yn gartrefol yn y byd yma?” Atebais, “Ni fwriadwyd i ti deimlo yn gartrefol yma.”

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 6:1–21; 19:16–21; Luc 12:33

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ddysgodd Iesu am fuddsoddiadau?
2. Pa gyngor a roddodd Iesu i'r gŵr ifanc am fuddsoddi?

Gweddi

O Dad grasol, er mor brydferth ac ardderchog yw'r byd yma, hefo sêr y nefoedd, hefo'r mynyddoedd, dyffrynnoedd a'r moroedd, eto, nid hwn yw fy nghartref parhaus. Mae fy ngwir gartref hefo ti. Rwyf yn disgwyl yn awyddus. Amen.